O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1876 (Cy. 204)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 23 a Chyffordd 20, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *27 Gorffennaf 2011*

Yn dod i rym *8 Awst 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig, ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd, ei wahardd neu ei ganiatáu, oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Awst 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 23 a Chyffordd 20, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 18:30 o'r gloch ar 8 Awst 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55